# CYNGOR CYMUNED BETWS

## 2006 07 Gorffennaf Cofnodion

CYNGOR CYMUNED Y BETWS

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor yn Festri Capel Newydd, Y Betws ar ddydd Mercher yr 12fed o Gorffennaf 2006 am 7.00 p.m.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwr Menna Roberts (Cadeirydd), y Cynghorwyr Anne Sizmur, June Gunter, Loreen Lewis, Annette Price, Peter Cowell, Delyth Richards, Carwyn James a'r Cynghorwr Sir John D Evans.

YMDDIHEURIADAU: Henadur D Arnallt James, y Cynghorwyr Keith Rees ac E Audrey Jones.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Dim.

1.DARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 14eg O FEHEFIN 2006.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Annette Price ac eiliodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod cofnodion cyfarfod y 14eg o Fehefin 2006 yn gywir ac fe’u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Cyngor Sir Caerfyrddin - Cysgodfa Bws.
Adroddodd y Cynghorwr Annette Price nad oes yna gysgodfa bws yn Nhreforis ar hyn o bryd. Cynigiodd y Cynghorwr Annette Price fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i ofyn a gall cysgodfa bws gael ei osod yn Nhreforis, Betws. Adroddodd y Cynghorwr Sir John D Evans ei fod ef wedi gofyn am gysgodfa bws yn Nhreforis. Cytunodd y Cynghorwyr i ddanfon llythyr at Gyngor Sir Caerfyrddin.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin.

2.2 Cyngor Sir Caerfyrddin - Tâl Parcio.
Adroddodd Y Cynghorwr Sir John D Evans fod y tâl parcio am amser byr yn 20c am hanner awr, mae ef wedi cynnig bod hwn yn cael ei estyn i 20c am awr. Bydd hyn yn cael ei hystyried gan y Bwrdd Gweithredol.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.3 Betws yn ei Blodau.
Adroddodd y Cynghorwr Anne Sizmur bod cystadleuaeth Betws yn ei Blodau wedi llwyddo eleni eto i ddenu diddordeb garddwyr y pentref. Mae hi wedi derbyn 2 ymgeisydd newydd felly mae yna gyfanswm o 12 cais .
NODWYD: y pwynt uchod.

2.4 Casgliad Sbwriel ar Heol Maescware, Betws.
Darllenodd y Clerc ymateb wrth Gyngor Sir Caerfyrddin yn ymddiheuro am fod y sbwriel heb ei gasglu ar ben Heol Maescware. Adroddodd y Cynghorwr Loreen Lewis bod y sbwriel heb ei gasglu unwaith eto ar Heol Y Betws a Theras Wern. Adroddodd Y Cynghorwr Sir John D Evans ei fod yn mynd i godi’r mater hwn gyda’r swyddog perthnasol o Gyngor Sir Caerfyrddinyn union.
PENDERFYNWYD: bod y Cynghorwr Sir John D Evans yn codi’r mater gyda Chyngor Sir Caerfyrddin.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin.
Nododd y Cynghorwr Peter Cowell ei fod yn siomedig nad yw Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin wedi rhoi digon o amser i Gynghorau Cymuned rhoi eu hymateb i’r broses ymgynghoriad ac felly nid ydynt wedi ymateb. Roedd y Cynghorwyr i gyd yn pryderu ynglyn â hyn ac fe benderfynwyd bod y Clerc yn ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin.

3.2 Llythyr Ymddiswyddiad.
Darllenodd Y Clerc lythyr a oedd wedi cael ei rhoi i’r Gadeiryddes Cynghorwr Menna Roberts oddi wrth Mr Graham Vaughan. Mae Mr Vaughan wedi tendro ei ymddiswyddiad fel Cynghorwr Cymuned o’r 12fed o fis Gorffennaf 2006.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn gwneud ymholiadau gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â phenodi Cynghorwr Cymuned newydd.

3.3 Gohebiaeth: Cydnabuwyd a nodwyd y canlynol:
1. Partneriaeth Sir Gaerfyrddin - Adroddiad Blynyddol 2005/06.
2. Awdurdod Canol a Gorllewin Cymru Tân ac Achub - Cynllun Drafft Lleihad Risg 2007/10.
3. Llywodraeth Cynulliad Cymru - Darparu indemniadau i aelodau a Swyddogion o Awdurdodau Perthnasol.
4. Grwp Partneriaeth Oedran.
5. Adam Price ynglyn ag ad-drefnu Lluoedd Yr Heddlu yng Nghymru.
6. Llythyr iAsiantaeth yr Amgylchedd wrth y Cynghorwr Sir John D Evans.
7. Taflen Seminar a dderbyniwyd wrth y Cynghorwr Sir John D Evans.
8. Tystysgrif am wobrau Cymru Daclus 2006.
9. Cyngor Sir Caerfyrddin, Gwasanaethau Cymdeithasol - rhoddwyd i’r Cynghorwr June Gunter.
10. Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsman 2005/06.

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Mae Cyngor Cymuned Y Betws wedi rhoi caniatâd i’r ceisiadau canlynol:-
Cynigiodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod y datblygwr yn gwneud cyfraniad tuag at yr Adran 106. Cytunodd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin, Adran Cynllunio.

E/13539 - Datblygiad Preswyl, Plotiau 12 & 12A Parc Coetir Cyfnod 2, Betws (7).
E/13538 - Datblygiad Preswyl, Plotiau 7 & 7A Parc Coetir Cyfnod 2, Betws (8).
E/13537 - Datblygiad Preswyl, Plotiau 10 & 11 Parc Coetir Cyfnod 2, Betws (9).

4.2 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi caniatâd i’r canlynol:-
E/13194 - Estyniad i'r Llawr Cyntaf, 89 Heol Y Cyrnol, Betws, Rhydaman (4)

4.3 Mae’r cais canlynol wedi cael ei dynn’n’n ôl ynunol â Chyfarwyddiadau a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar y 30ain o Fehefin 2006.
E13371 - Datblygiad Preswyl, Tir gyferbyn â’r Plough & Harrow, Heol Y Betws, Betws, Rhydaman (5).

5. CYFRIFON.
Cyflwynodd y Clerc y cyfrifon archwiliedig am y flwyddyn i ddiwedd y 31ain o fis Mawrth 2006 i’r cyfarfod. Dywedodd fod yr Archwiliad Mewnol wedi’i gwblhau ac roedd yr archwiliad allanol i’w gynnal am yr 11eg o Awst. Llofnododd y Gadeiryddes y ffurflen flynyddol.
NODWYD: y pwynt uchod.

Trafododd y Cynghorwr Carwyn James y rhoddion a benderfynwyd arnynt gan y Cynghorwyr. Esboniodd fod Ysgol Y Betws wedi ysgrifennu i ofyn am gyfraniad ariannol tuag

archebu bwrdd picnic. Awgrymodd fod y Clerc yn siarad gyda Phennaeth Ysgol Y Betws i weld os hoffai i Gyngor Cymuned Y Betws archebu bwrdd picnic newydd a hefyd bin sbwriel broga/ dolffin i'r Ysgol.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn siarad gyda Phennaeth Ysgol Y Betws.

Esboniodd y Cynghorwr Carwyn James i'r Cynghorwyr fod y Clerc wedi derbyn cyfriflen banc wrth Glwb Criced Y Betws. Trafododd y Cynghorwyr y mater hwn ac fe benderfynwyd os yw Clwb Criced Y Betws yn gallu codi arian hyd at £300 bydd Cyngor Cymuned Y Betws yn ystyried y posibilrwydd o gynnig arian cyfatebol i'r uchafswm hwn.
NODWYD: y pwynt uchod.

Gofynnodd y Cynghorwr Anne Sizmur os oedd modd cynyddu gwobr ariannol y gystadleuaeth Betws yn ei Blodau o £50, a dalwyd y llynedd i Ysgol Y Betws. Roedd y Cynghorwyr yn ffafrio cynyddu gwobr Betws yn ei Blodau i £100.
PENDERFYNWYD: I roi gwobr ariannol o £100 i Ysgol Y Betws (am gystadleuaeth Betws yn ei blodau).

Biliau:
1. Lyn Llewellyn (Archwiliad Mewnol) £55.00
2. Cyfarfodydd Capel Newydd (x5) £50.00
3. Roger Lewis Llwybrau Troed £800.00
4. Roger Lewis (Blodau) £34.00
5. Rhodd - Glo Mân £50.00
6. Rhodd - Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru £50.00
7. Rhodd - Ambiwlans Awyr Cymru £100.00
8. Rhodd - Child Line Cymru £100.00
9. Ysgol Y Betws (Betws Yn Ei Blodau) £100.00
CYFANSWM £1339.00
CYTUNWYD: I dalu'r biliau uchod.

Gofynnodd y Clerc os all penderfyniad gael ei wneud fel bod y Clerc yn gallu gwneud taliadau ym mis Awst os bydd rhai yn codi ee Yswiriant Y Cyngor Cymuned. Cytunodd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn gallu gwneud taliadau ym mis Awst.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Kevin Jones y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd fod yna 12 trosedd wedi'u cofnodi yn ardal y Betws ym mis Mehefin. Maent fel a ganlyn:-
1 ymosodiad, 2 Perchen ar ganabis, 1 arf bygythiol, 2 lladradau, 3 Niwed troseddol i gerbydau, 2 trosedd trefn gyhoeddus a 1 bygythiad i ladd. Ar hyn o bryd mae 3 trosedd wedi'u datrys.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Adroddodd Y Cynghorwr Sir John D Evans y canlynol:-
1. Parc Nantyfelin - Mae'r cyfrifoldeb ar y Datblygwr i roi arwyddion i fyny. Mae Cynghorwr Sir John D Evans wedi danfon e-bost i'r Swyddog o Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â chasgliad sbwriel ar Nantyfelin ond nid yw wedi derbyn ymateb hyd yn hyn.
2. Marciau'r Ffordd - Gofynnodd y Cynghorwr Delyth Richards i'r Cynghorwr Sir John D Evans os oedd e' wedi codi'r mater ynglyn â'r marciau'r ffordd ar hyd Heol Iscennen, Rhydaman gyda'r Cynghorwr perthnasol oherwydd nid yw'r marciau yn ddwyieithog. Dywedodd y Cynghorwr Sir John D Evans ei fod wedi codi'r mater hwn gyda'r Cynghorwr perthnasol. Penderfynodd y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at yr Adran Cynllunio o Gyngor Sir Caerfyrddin.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at yr Adran Cynllunio o Gyngor Sir Caerfyrddin.

8. ADRODDIADAU.
8.1 Betws yn ei Blodau.
Gofynnodd y Cynghorwr Anne Sizmur i'r Cynghorwyr os gall hi gael y darian a'r cwpanau wedi'u hysgythru. Cytunodd y Cynghorwyr. Hefyd fe gytunwyd y Cynghorwyr i gynnal noson cyflwyniad Betws yn ei Blodau ar y 19eg o fis Medi yng Nghapel Newydd.
NODWYD: y pwynt uchod.

8.2 Prosiect Parc Betws.
Roedd y Cynghorwr Annette Price wedi diweddaru'r Cynghorwyr ynglyn â Phrosiect Parc Betws. Dywedodd fod y Cyngor Cymuned yn gallu gwneud cais am grant o 80% trwy'r Gronfa Un a grant o 20% wrth WREN. Dywedodd y Cynghorwr Annette Price fod yna wr sydd yn fodlon costio'r prosiect cyfan i'r Cyngor Cymuned sydd wedi'i argymell gan Adran Parc Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae Amy Hawkins wedi cadarnhau fod y gwasanaeth hyn wedi cael ei dalu am.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn danfon nodyn diogelu i'r gwr.

8.3 Treftadaeth Cerdded.
Dywedodd y Cynghorwr Peter Cowell fydd yna fwrdd gwybodaeth ynglyn â'r dreftadaeth cerdded yn cael ei osod ym Mharc Betws. Gofynnodd y Cynghorwr Peter Cowell os yw'r Clerc wedi derbyn y logo lliw wrth Fattorini. Dywedodd y Clerc nad yw hi wedi derbyn y logo lliw hyd yn hyn.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn dilyn y mater hwn cynted ag y mae hi'n derbyn y logo lliw gan anfon e' at Martin Murray yn Ty'r Nant, Trostre.

9. UNRHYW FATER ARALL.
9.1 Ymgyrch i lanhau.
Gofynnodd y Cynghorwr Carwyn James pryd byddai'r Cynghorwyr ar gael i ymgymryd â'r ymgyrch i lanhau. Cafodd y digwyddiad diwethaf ei ddileu oherwydd y tywydd gwael. Penderfynodd y Cynghorwyr fod yr ymgyrch i lanhau yn cymryd lle ar y 19eg o fis Gorffennaf am 6.30 yr hwyr, gan lanhau'r llwybr o Heol Y Cyrnol i Ysgol Y Betws.
NODWYD: y pwynt uchod.

10. RHEOLAU SEFYDLOG.
Pwysleisiodd y Cynghorwr Sir John D Evans bod rhaid ychwanegu'r canlynol at y Rheolau Sefydlog:-
"fod rhaid i'r Cynghorwr Sir ddatgan buddiannau ariannol a rhai heb fod yn ariannol."
Cadarnhaodd y Cynghorwr Peter Cowell ac eiliodd y Cynghorwr June Gunter fod y newidiad yn cael ei wneud i'r Rheolau Sefydlog. Cytunodd y Cynghorwyr.
Gofynnodd y Cynghorwr Delyth Richards os yw'r rheolau sefydlog ar gael yn Gymraeg.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn gwneud ymholiadau gydag Un Llais Cymru.